



Pennaeth / Headteacher
MEINIR L ROBERTS BAdd.



ysg2154@ynysmon.gov.uk

18/03/2020

CAU YSGOLION yn sgil gofyn cenedlaethol – Covid-19

Annwyl Riant /Gwarcheidwaid,

Mae'n gyfnod heriol ac ansicr iawn i bawb. Mae'r gorchymyn i gau ysgolion ar Dydd Gwener Mawrth yr 20fed **ar yr hwyr**, oherwydd effeithiau a dylanwad Covid19 wedi ei wneud. Mae ysgolion Dalgylch Llangefni wedi cytuno ar drefn weithredu rhannu gwaith a thasgau gyda disgyblion o'u cartrefi.

Y mathau o dasgau mae Dalgylch Llangefni wedi gytuno arnynt yw:

- **Darllen**
- **Llawysgrifen**
- **Maths – ymarfer tablau / gaith rhif / ymarferion – pecynnau papur / tasgau ar-lein**
- Tasgau Twinkl
- Cliciadur (ar gael ar Hwb)
- Llyfr trysor / dyddiadur – côf a chadw
- Cofnodi llyfr ar google Classroom – adborth gan yr athro /athrawes
- Gwyllo Cyw / Rhaglenni Cymraeg
- Coginio
- Gwranddo ar gerddoriaeth Gymraeg
- Tynnu lluniau – sgetsio / arlunio
- Rhestr o apiau addysgol
- Gwaith Natur / arolwg adar yr ardd
- **Tasgau THEMA dosbarth gellir ei wneud drwy HWB / GOOGLE CLASSROOMS**

Yn achos YSGOL Y GRAIG bydd pecyn gwaith papur, tasgau darllen yn cael eu rhannu a llyfrau ar gyfer ysgrifennu a gwneud tasgau. Bydd gweithgareddau Rhifedd a Mathemateg a tasgau ysgrifennu a chreu yn cael eu gosod drwy GOOGLE CLASSROOMS i ddisgyblion Blwyddyn 3 i fyny. Byddem yn cadw cyswllt gyda chi drwy CLASSDOJO a gwefan yr ysgol.

Dymunwn y gorau, iechyd a gofal i bawb.

Gwnawn ein gorau, hyd yn oed mewn sefyllfa anodd fel hyn.

Gyda diolch,

Meinir L Roberts
Pennaeth
(Ysgol Y Graig)
01248 723092